

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	28 Tachwedd 2019
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg/Karen Evans, Pennaeth Addysg
Awdur yr Adroddiad:	Julian Molloy, Prif Reolwr Addysg
Teitl:	Perfformiad ysgol a chanlyniadau arholiadau dros dro L2

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Perfformiad heb ei wirio o ysgolion Sir Ddinbych a chanlyniadau arholiadau allanol drafft Cyfnod Allweddol 4. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi canlyniadau drafft yn erbyn gwybodaeth a pherfformiad cenedlaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad a monitro ysgolion Sir Ddinbych yn arolygon Estyn a 2019.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n adolygu a chyflwyno sylwadau ar berfformiad ysgolion a nodi unrhyw feysydd posibl i'w gwella.

4. Cefndir a chyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru ynghyd â sawl partner ac arbenigwr wedi cynnal adolygiad sylfaenol o system atebolrwydd ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Roedd canfyddiadau yn amlygu bod y system bresennol a'r defnydd o fesurau perfformiad yn cynnwys llawer o ganlyniadau negyddol anfwriadol, fel:

- culhau dewis cwricwlwm;
- ffocws anghymesur ar grwpiau o ddysgwyr penodol;
- y modd y defnyddir meincnodi i ysgogi cystadleuaeth rhwng ysgolion yn hytrach nag annog cydweithio.
- llwyth gwaith cynyddol a diangen i athrawon ac eraill yn y system, heb yr effaith neu'r budd angenrheidiol i ddysgwyr; a
- cydgasglu data at ddibenion *atebolrwydd* lle cafodd ei ddylunio at ddibenion gwella.

O ganlyniad, mae ysgolion wedi clywed negeseuon gwrthdrawiadol o amrywiol rannau o'r system am yr hyn sydd o bwys. Mae hyn yn aml wedi ailgyfeirio ymdrech o ddysgu ac addysgu a'n symud tuag at ddiwylliant o gydymffurfiaeth a biwrocratiaeth.

Cydgfathrebiad gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Estyn i Gadeiryddion Craffu, Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr Addysg, Prif Weithredwyr a Rheolwyr Gyfarwyddwyr Consortia Addysg Rhanbarthol, a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2019 yn nodi:

“Mae’n wrthgynhyrchol i ysgolion gael eu rhoi o dan bwysau anghymesur ar sail mesurau unigol. Nid yw o fudd i wella ysgolion a’r peryglon sy’n tanseilio’r newid parhaus mewn diwylliant yr ydym yn gweithio gyda’n gilydd i gyflawni. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gefnogi ysgolion i wneud penderfyniadau priodol am eu cwricwlwm i osgoi culhau dewis i ddysgwyr.

Rydym wedi cytuno gyda’n gilydd mai dyma’r dull cywir ac rydym yn eich cynghori yn gryf i ddefnyddio ystod eang o ddata heb ei gyfuno a gwybodaeth i’ch galluogi i ryddhau eich dyletswyddau wrth adrodd ar berfformiad ysgol. Bydd gwerthuso perfformiad ysgolion unigol yn hytrach na chynhyrchu data cyfanredol ar lefel awdurdod lleol yn fwy defnyddiol i gefnogi a herio ysgolion unigol ar gyfer gwella. Bydd yr adroddiad hwn ar berfformiad ar draws Gogledd Cymru yn cadw at y canllaw hwn.

5 Adrodd ar ganlyniadau CA4

Mae mesurau CA4 interim newydd wedi eu cyflwyno ar gyfer 2019 fel rhan o raglen diwygio addysg sylweddol yng Nghymru. Bydd cipio data cenedlaethol ar gyfer ysgolion unigol yn seiliedig ar ganlyniadau mynediad cyntaf. Mae JCQ/CBAC wedi cyhoeddi eu data a datganiad i’r wasg yn seiliedig ar y ‘canlyniad gorau’ a gafwyd gan ddisgyblion 16 oed ar gyfer cyfres yr haf a mis Tachwedd. Bydd yna wahaniaethau rhwng mynediad cyntaf a data canlyniad gorau. O ganlyniad, ar draws sawl dangosydd, ni fydd yn bosibl cymharu ffigyrau 2019 gyda pherfformiad blaenorol.

Mae Atodiad 1 yn dangos y mesurau dros dro newydd a’r methodoleg a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo. Mae hefyd yn dangos y prif wahaniaethau gyda blynyddoedd blaenorol. Yn y cyd-destun hwn, dylid dadansoddi’r data ar lefel leol ac fel man cychwyn ar gyfer cwestiynu blaenoriaethau lleol.

Er bod data 2019 ar gael ar fesurau perfformiad hanesyddol ar hyn o bryd (L1, L2, L2+ a 5A*-A), nid yw cymhariaeth gyda blynyddoedd blaenorol yn ddilys oherwydd y cyfrif mynediad cyntaf yn hytrach na chanlyniad gorau.

6 Craffu ar Berfformiad Ysgolion Unigol

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd Ansawdd rheolaidd pob pythefnos rhwng Swyddogion ALI ac Arweinwyr Craidd GwE. Mae unrhyw ysgolion sy’n destun pryder yn cael eu trafod ac unrhyw gryfderau a meysydd ar gyfer gwella yn cael eu nodi. Mae hyn yn cysylltu â’r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan yr arweinydd craidd gydag Ymgnghorwyr Gwella i drafod cynnydd ysgolion. Mae’r cyfathrebu rheolaidd rhwng swyddogion yr ALI a GwE yn sicrhau y rhennir gwybodaeth am y capasiti i wella ysgolion a lle mae pryderon yn cael eu nodi fod pawb yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu’r safonau a darpariaeth yn yr ysgol a gosod a monitro targedau clir ar gyfer gwella.

Mae gan yr ALI ei brosesau monitro ei hun i graffu ar berfformiad ysgolion unigol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ‘Byrddau Gwella Cyflym’ ar gyfer ysgolion sy’n destun pryder.

Canlyniadau Lefel 2 mewn Ysgolion 2019 (dangosyddion allweddol)

	Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ionawr 2019	% wedi cyflawni'r trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Cymraeg iaith Gyntaf neu Saesneg Llenyddiaeth a mathemateg	% wedi cyflawni'r trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Wedi cyflawni 5 neu fwy TGAU graddau A*-A neu gyfatebol	Mesur 9 wedi'i gapio
Ysgol Uwchradd Y Rhyl	140	39	45	9	348
Ysgol Uwchradd Prestatyn	209	54	56	11	346
Ysgol Glan Clwyd	143	61	62	18	374
Ysgol Uwchradd Dinbych	94	40	46	6	346
Ysgol Dinas Bran	172	51	58	16	374
Ysgol Brynhyfryd	156	61	69	33	398
Bendigaid Edward Jones	54	30	31	6	266
Santes Ffraid	53	74	75	25	401
Uned Atgyfeirio Disgyblion	8	0	0	0	116
Tir Morfa	18	0	0	0	61
Plas Brondyffryn	9	0	0	0	57
EOTAS	75	0	0	0	n/k
Sir Ddinbych	1,131	47	51	51	334
Cymru	-	50	54	54	353

7 Arolygon Estyn 2018-19

Mae proffil arolygon ysgolion Estyn yn Sir Ddinbych ar gyfer 2018 yn dda iawn (Atodiad 1) gyda 6 allan o 10 ysgol yn cael eu harchwilio yn derbyn dyfarniadau ardderchog. Derbyniodd yr ysgolion hyn i gyd wobwr Rhagoriaeth yn nigwyddiad gwobrau darparwyr Estyn. Ysgol Plas Cefndy yw'r unig Uned Atgyfeirio Disgyblion i dderbyn arolwg ardderchog yng Nghymru a'r cyntaf ers nifer o flynyddoedd i gael ei dyfarnu yn ardderchog ar gyfer pob agwedd o'r arolwg.

8 Ysgolion sy'n Achos Pryder

Mae pob ysgol ar daith tuag at welliant ac felly angen cefnogaeth a her briodol a gwahaniaethol i raddau amrywiol. Mae ambell ysgol angen ymyrraeth a dargedwyd mwy dwys. Mae'r label 'ysgolion sy'n achosi pryder' yn amrywiol iawn ac nid yw'r term mwy cyffredinol wedi'i ddiffinio'n glir mewn canllawiau cenedlaethol.

Mae gan ranbarth GwE a Sir Ddinbych hanes blaenorol da yn gyffredinol o gefnogi ysgolion ac yn benodol y rhai sy'n achosi pryder. Mae gan bob ysgol uwchradd gynllun cefnogi pwrpasol sy'n sicrhau bod cefnogaeth GwE ac awdurdod lleol yn cael ei alinio'n agos gyda'u blaenoriaethau SDP. Mae hyn yn caniatáu i drefnu adnoddau yn fwy effeithiol, arbenigedd rhanbarthol ac arfer gorau.

Mae cyfarfodydd Bwrdd Safonau Ansawdd Lleol yn cael eu cynnal yn rheolaidd rhwng uwch swyddogion yr ALI a GwE a defnyddir i rannu gwybodaeth o amgylch perfformiad ysgol a chynnydd a chytuno ar unrhyw addasiadau gofynnol i gefnogi cynlluniau. Mae

Byrddau Gwella Cyflym Interim yn darparu her ac ymyrraeth i'r ysgolion hynny mewn categorïau pryder difrifol.

9. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at Flaenoriaeth Gorfforaethol Pobl Ifanc sy'n anelu i sicrhau fod pob plentyn yn cyflawni'r safon ddisgwylidig ar ddiwedd eu siwrnai addysg statudol a bod ganddynt y sgiliau bywyd a gwaith. Mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol o berfformiad yr ysgolion a'r ALL yn erbyn meincnodau cenedlaethol.

10. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol.

11. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y website, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.

*Sir Ddinbych ffyniannus
Sir Ddinbych wydn
Sir Ddinbych iachach
Sir Ddinbych fwy cyfartal
Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol
Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu
Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang*

12. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Amherthnasol.

13. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

14. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau nhw?

- Bydd yr ALL a GwE yn parhau i herio Penaethiaid a rheolwyr ysgolion i sicrhau bod yr ysgolion yn cymryd y camau gweithredu cywir er mwyn gwella safonau. I leihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a heriau yn ysgolion Sir Ddinbych, mae Swyddogion Addysg yn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y gwasanaeth addysg rhanbarthol (GwE).
- Sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau arholiadau allanol.
- Parhau i wella yn erbyn y gostyngiad yng Ngrant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

15. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu amcanion perfformiad a pholisi.

Swyddog Cyswllt: Julian Molloy, Prif Reolwr Addysg,

Rhif ffôn: 01824 708027